



YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



Medi 7fed 2017

Annwyl Rieni,

Croeso yn ôl i bawb wedi gwyliau'r haf, a chroeso arbennig i griw o blant newydd yn yr ysgol.

I ddechrau, fe hoffwn ymddiheuro am yr anghyfleustra a achoswyd i chwi yn dilyn y penderfyniad i gau am dri diwrnod wythnos yma. Fel y gwyddoch, roedd y sefyllfa y tu hwnt i reolaeth yr ysgol. Roeddwn yn cydymdeimlo'n ddirfawr â chwi oherwydd ei fod mor ddi-rybudd. Mae nifer ohonoch wedi bod yn holi os fyddwn felly yn colli ein dyddiau HMS. Rydym wedi defnyddio dau ddiwrnod HMS ond byddwn yn cadw y diwrnodau HMS ar **6/11/17** ac ar **9/2/18** ac felly bydd yr ysgol ar gau ar y dyddiau yma.

Ar ddechrau blwyddyn ysgol fel hyn, hoffwn dynnu eich sylw at y materion pwysig yma:

Maes Parcio

Disgwylir y bydd y maes parcio yn cael ei farcio o fewn yr wythnosau nesaf. Ni fydd yn manau parcio anabl yn barod nes y rhan nesaf o'r gwaith. Cofiwch **na ddylid parcio a gadael y car ar unrhyw gyfrif ar y lôn 'Gollwng/Codi a Mynd' ym mlaen yr ysgol**. Gallwch ddefnyddio'r manau parcio Arhosiad Byr ac fe ddylid **bagio** i barcio yn y manau yma. Manau parcio arhosiad BYR yw'r rhain – maent yn ddelfrydol ar gyfer rhieni Meithrin yn y bore i ddod â'r plant i fewn neu ar gyfer rhieni sydd angen aros rhwng 3pm a 3.15pm i ddisgwyl am blant yr Adran Iau. Pan yn codi'r plant ar ddiwedd y dydd, peidiwch â pharcio yma a mynd i'r parc.

Trefniadau boreau / Clwb Gofal Bore / Clwb Brecwast

Bydd yr ysgol yn cynnal **Clwb Gofal Bore rhwng 7.50am a 8.15am** gyda theuluoedd yn talu ffi o 75c y dydd y plentyn (os oes gan deulu dri neu fwy o blant yn mynychu'r clwb gofal cyn-ysgol yna'r ffi yw £2 y diwrnod ar gyfer y teulu). Os ydych yn dymuno manteisio ar y clwb brecwast am ddim, yna mae'r clwb yn cychwyn am **8.15am** a bydd brecwast yn cael ei weini hyd at **8.30am** - **ni dderbynnir plant i'r clwb wedi'r amser yma**. (Cymerir yn ganiataol y bydd plant y Clwb Gwarchod yn aros i'r Clwb Brecwast). Rhaid defnyddio drws y neuadd ar gyfer mynediad i'r clybiau yma.

PWYSIG: NI ellir danfon plant i'r Clwb Brecwast cyn 8.15am. Os nad ydynt yn y Clwb Brecwast erbyn 8.30am dylech fod yn ymwybodol nad ydym yn derbyn cyfrifoldeb, nag yn goruchwyllo'r plant cyn 8.40am.

Hyd nes y bydd y gwaith wedi ei gwblhau, bydd staff yn goruchwyllo y man 'Gollwng a Mynd' ar y maes parcio ac yn hebrwng y plant i fewn ac hefyd yn cyfarch plant a rhieni wrth y giât mochyn (ger y parc) am **8.40am**. Caniateir i rieni y plant dosbarth Meithrin yn unig hebrwng eu plant at ddrws y dosbarth. Anogwn rieni a phlant y pentref i gerdded i'r/o'r ysgol pan yn bosib.

Casglu Plant am 3pm a 3.15pm

Tra y bydd y gwaith yn mynd ymlaen, byddwn yn hebrwng y plant at rieni ar yr iard yng nghefn yr ysgol neu i'r maes parcio. Os yn defnyddio y man 'Codi a Mynd' yna gyrrwch ymlaen i ben y lôn arbennig yma er mwyn rhoi lle i geir y tu ôl i chi.

Monitro Presenoldeb a Phrydlondeb

Rydym yn monitro presenoldeb a phrydlondeb yn ofalus iawn. Mae'r diwrnod ysgol yn dechrau am 8.50am ac fe ofynnaf yn garedig i chwi ofalu fod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Os yw plentyn yn absennol o'r ysgol gofynnwn yn garedig i chi ffonio'r ysgol cyn 9.00am. Rydym yn monitro presenoldeb disgyblion unigol yn fanwl bob hanner tymor a bydd yr ysgol yn hysbysu rhieni ar ddiwedd pob hanner tymor os bydd presenoldeb eu plentyn yn disgyn o dan 90%.

Taliadau Cinio

Pris cinio eleni yw £2.20 y dydd. **Rydym yn annog rhieni i ddefnyddio ein system talu ar-lein drwy 'Schoolgateway'** sydd yn eich galluogi i wneud taliadau yn yn uniongyrchol i'r ysgol gan ddefnyddio'ch cerdyn debyd neu gredyd. Mae'r system yma yn osgoi yr angen i anfon arian i'r ysgol gyda'ch plentyn gan atal y siawns i arian fynd ar goll, ac yn sicrhau hwylystod a mwy o reolaeth i chi fel rhieni. Os nad oes ganddoch gyfrif, mae angen i chi gofrestru er mwyn creu cyfrif ar

<https://porthysgol.ynysmon.gov.uk/> drwy glicio fel defnyddiwr newydd. Bydd angen i chi roi eich cyfeiriad e-bost a'r rhif



symudol **sydd gennym wedi ei gofnodi ar eich cyfer yn yr ysgol.** Cysylltwch â ni os am ragor o arweiniad ar hyn. Os yw talu ag arian parod yn angenrheidiol, yna mae'n rhaid rhoi'r arian mewn amlenni gydag enw'r plentyn a'r dosbarth, gan dalu ar ddydd Llun neu ddydd Gwener. Ni roddir newid.

Llefrith

Mae llefrith yn cael ei gynnig am ddim i blant y Cyfnod Sylfaen. Ni fydd llefrith yn cael ei ddarparu i'r Adran Iau.

Gwisg Ysgol

Taer erfyniaf arnoch i labelu pob dilledyn yn gwbl glir, yn enwedig siwmperi a chardiganau.

Addysg Gorfforol

Cynhelir gwersi addysg gorfforol ar y dyddiau yma:

Meithrin/Derbyn – Dydd Iau

Bl.3 a 4 – Dydd Iau

Bl. 1 a 2 – Dydd Gwener

Bl. 5 a 6 – Dydd Gwener

Sicrhewch fod gan eich plentyn siort, crys-T ac esgidiau ymarfer ar gyfer pob gwersi.

Cyfathrebu â rhieni

Byddwn yn anfon negeseuon testun i'ch ffôn symudol i'ch atgoffa o wahanol ddigwyddiadau ac i ddarparu gwybodaeth ar fyr rybudd. Er mwyn gwirio fod ganddom eich rhif ffôn cywir, cysylltwch â'r ysgol os nad ydych wedi derbyn negeseuon yr wythnos yma.

Mae nifer fawr ohonoch wedi dewis derbyn llythyrau/gwybodaeth drwy ebost ac mae hyn yn arbed amser ac arian yn sylweddol. Gwiriwch eich bod wedi derbyn y llythyr hwn drwy ebost fel prawf. Hefyd, rhoddir copiâu o lythyrau ar ein gwefan www.parcybon.co.uk.

Rydym yn rheadru gwybodaeth, dyddiadau a lluniau gwahanol weithgareddau ar ein gwefan ac ar Facebook a Twitter. Hoffwch ein tudalen Facebook 'Ysgol Parc y Bont' neu ein dilyn ar y trydar @YsgolParcyBont.

Gwyliau Ysgol 2016-2017

30 Hydref – 3 Tachwedd 2017 (Hanner-Tymor)
25 Rhagfyr 2017 - 5 Ionawr 2018 (Gwyliau'r Nadolig)
12 - 16 Chwefror 2018 (Hanner-Tymor)
26 Mawrth 2018 – 6 Ebrill 2018 (Gwyliau'r Pasg)
7 Mai 2018 (Calan Mai)
28 Mai – 1 Mehefin 2018 (Hanner-Tymor)

Ysgol yn cau am wyliau Haf ar Ddydd Gwener 20 Gorffennaf 2018.

Dyddiau HMS – ysgol ar gau

Tachwedd 6ed 2017

Chwefror 9fed 2018

Edrychaf ymlaen am flwyddyn o gydweithio esmwyth â chwi.

Yn gywir

Iwan Wyn Taylor
(Pennaeth)





Welsh Network of Healthy School Schemes



Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

